



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013 – 2020

Cynllun Gweithredu Fframwaith – Blwyddyn 2



OGL

WG25896
© Hawlfraint y Goron 2015

HYRWYDDO

Blaenoriaethau Strategol

- Hyrwyddo a marchnata brand cryf, unffurf ac unigryw i Gymru
- Hyrwyddo ar sail cynnyrch i roi rhesymau da dros ymweld â Chymru
- Targedu'r marchnadoedd hen a newydd sydd fwyaf tebygol o dyfu
- Gwerthu rhagoriaeth trwy'r hyn y gall Cymru ei gynnig – arfordir a chefn gwlad, diwylliant, gweithgareddau, digwyddiadau a chyrchfannau unigryw

Beth sydd angen i ni ei wneud i ddatblygu'r strategaeth	Sut ydym yn ei wneud? / Camau yn yr Arfaeth	Cyflawniadau / Cynnydd Hyd Yma	Amseriad (blynyddoedd)
Datblygu brand twristiaeth clir, cryf a chredadwy i Gymru sy'n seiliedig ar ein cryfderau gwirioneddol a'n nodweddion unigryw fel cenedl ac sy'n cyd-fynd â brand ehangach Cymru	Cyflwyno negeseuon ymgysylltu'r brand i randdeiliaid mewnol ac allanol.	<ul style="list-style-type: none"> • Cynhaliwyd gweithgarwch negeseuon ymgysylltu'r brand helaeth yn fewnol yn 2014 a chyflwynwyd sioeau teithiol marchnata penodol ar gyfer y diwydiant yn 2014 er mwyn cyflwyno negeseuon ymgysylltu'r brand i randdeiliaid allanol. Hefyd rhannwyd cynllun cynnwys am y flwyddyn â rhanddeiliaid ym mis Ionawr 2015. • Mae digwyddiadau Fforwm Rhanbarthol hefyd wedi canolbwyntio ar negeseuon Marchnata / Brand ac mae hyn yn parhau'n eitem sefydlog ar agendâu mewn cyfarfodydd Rhanbarthol. • Mae rhaglen gysylltu â rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig â thema farchnata "Blwyddyn Antur" 2016 eisoes ar waith. 	Parhaus

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

	<p>Naratif brand twristiaeth i gael ei ymgorffori mewn ymarferion marchnata a chreadigol Croeso Cymru / rhanddeiliaid.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae naratif brand twristiaeth ystyrion sy'n seiliedig ar strategaeth brand adfywiol ar gyfer Cymru a thema'r ymgyrch 'Does unman tebyg i Gymru' wedi cael eu hymgorffori ym mhob gweithgarwch Twristiaeth a Marchnata ym mhob marchnad a rhaglen yn 2014/15. Mae'r dull hwn wedi arwain at £238m o wariant ychwanegol yn economi Cymru, gan gynnal 5,455 o swyddi. • Mae naratif y brand hwn wedi bod yn sail i bob gweithgarwch, gan gynnwys ymgyrchoedd cynnwys digidol arloesol, fel ymgyrch fwyd yr Hydref, pan welwyd Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â rhwydwaith FoodTube Jamie Oliver a'r ymgyrch blogiau fideo teuluol yn y Gwanwyn. • Mae naratif y brand twristiaeth wedi ei ymgorffori mewn gwaith arall i gyflwyno brand Cymru – gan gynnwys ymgyrchoedd busnes a Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor. 	<p>Parhaus</p>
<p>Datblygu a gweithredu strategaeth brand eiconig sy'n seiliedig ar gynnyrch i fod yn rhan allweddol o sut mae Cymru'n hyrwyddo ei hun fel cyrchfan dwristiaeth ffres a chyffrous</p>	<p>Datblygu dull cytûn o farchnata cynnyrch eiconig mewn cynlluniau marchnata.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r holl weithgarwch marchnata twristiaeth – gan gynnwys y prif ymgyrchoedd a gweithgarwch tactegol / o ddydd i ddydd (cysylltiadau cyhoeddus, cynnwys digidol) wedi bod yn seiliedig ar gynnyrch. • Mae'r dull seiliedig ar gynnyrch yn cael ei addasu i apelio at y gwahanol farchnadoedd targed – ee atyniadau; bwyd yn y DU /Iwerddon; Llwybr Arfordir Cymru yn cael ei hyrwyddo yn yr Almaen; a moethusrwydd yn yr UDA. • Bydd cyflwyno dull blwyddyn marchnata thematig yn rhoi mwy o sylw i hyn yn y dyfodol; gan ddechrau gyda'r thema "Blwyddyn Antur" yn 2016. • Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi helpu i ddatblygu / hyrwyddo cynnyrch penodol fel Golf, Mordeithiau a Beiciau Mynydd. 	<p>Parhaus</p>

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

	<p>Mynd ati i ddatblygu a marchnata cynnyrch eiconig.</p>	<ul style="list-style-type: none">• Cafodd dros 100 o gynhyrchion twristiaeth Cymreig eu cynnwys yn yr ymgyrch “Does unman tebyg i Gymru”.• Mae marchnata Busnes i Fusnes Cymru wedi cynhyrchu £4.5m – roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar gynnyrch a gweithredwyr penodol.• Nod y dull blynyddoedd thematig yw cyd-fynd â strategaethau datblygu cynnyrch a marchnata – gan roi pwyslais ar fuddsoddiad mewn a hyrwyddo cynnyrch eiconig.• Mae strwythur newydd y tîm Twristiaeth a Marchnata wedi'i roi ar waith i alluogi gwell gweithio strategol rhwng Marchnata a Datblygu Cynnyrch.	
--	-----------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

<p>Cynyddu gwerth twristiaeth o farchnadoedd daearyddol a chynnyrch sy'n flaenoriaeth.</p>	<p>Cytuno ar gynllun marchnata cyfunol i'r DU ac Iwerddon i adlewyrchu'r blaenoriaethau targedu diwygiedig a'r dull marchnata newydd sy'n seiliedig ar frand/cynnyrch a gweithredu'r cynllun hwn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cafodd cynllun marchnata cyfunol aml-farchnad, aml-sianel, yn seiliedig ar thema "Does unman tebyg i Gymru?" ei gyflwyno yng Nghymru, ledled y DU a Gweriniaeth Iwerddon yn ystod 2014/15. Llwyddodd yr ymgyrch i ddenu 265,098 o ymatebion, o'i gymharu â tharged gwreiddiol o 120,000. • Mae ein gweithgareddau marchnata'n parhau i ddenu ymwelwyr i wefan visitwales.com. Bu cynnydd o 33% yn lefelau defnyddwyr y wefan flwyddyn ar ôl blwyddyn. Bu'r cynnydd yn neilltuoel o sylweddol yn chwarter cyntaf 2015. O gymharu Ion – Maw 2015 â Ion – Maw 2014, gwelwyd 77% o gynnydd yn nifer y defnyddwyr unigryw. Gellid priodoli hynny i'r gweithgarwch ymgyrchu a digidol integredig roeddem yn ei gynnal ar y pryd. • Fel rhan o'r dull hwn, cychwynnwyd ar weithgarwch marchnata a oedd yn targedu defnyddwyr o Gymru ym mis Mawrth 2014 gyda deunydd hyrwyddo ar deledu, radio ac ar-lein. • Dangosodd gwerthusiad o'r gweithgarwch marchnata ar gyfer blwyddyn galendr 2014 fod gweithgarwch sydd wedi'i anelu at gwsmeriaid yn y DU / Iwerddon wedi cynhyrchu gwariant ychwanegol o £229 miliwn o gyfanswm y gwariant ychwanegol a gynhyrchwyd. • Cynhyrchodd gweithgarwch Cysylltiadau Cyfryngau yn y DU sydd â Chyfwerth Hysbysebu (yr hyn y byddai'n gostio i dalu am erthyglau / storïau mewn cylchgronau / papurau newydd ac ati) o fwy na £17 miliwn yn ystod 2014/15. 	<p>Parhaus</p>
--------------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-----------------------

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

	<p>Cytuno ar gynllun marchnata cyfunol ar gyfer yr Almaen a gweithredu'r cynllun.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cafodd cynllun marchnata cyfunol ar gyfer yr Almaen ei roi ar waith. • Cafodd y wefan Almaeneg ei hiaith ei hail-lansio yn 2014; mae presenoldeb mewn cyfryngau cymdeithasol yn yr iaith hefyd wedi'i sefydlu. • Cafodd ymgyrch farchnata aml-sianel, aml-blattform ei lansio yn yr Almaen yn Ionawr 2015 a bydd yn rhedeg tan yr haf. Roedd yr ymgyrch yn seiliedig ar bartneriaethau a sefydlwyd â brandiau allweddol gyda phresenoldeb cryf ym marchnad yr Almaen – gan gynnwys Flybe, P&O Ferries, Hotels.com a DFDS Seaways. • Mae ymgyrchoedd chwilio digidol cychwynnol y telir amdanynt wedi datblygu dealltwriaeth o'r farchnad, gydag ymgyrchoedd digidol eraill yn yr arfaeth ar gyfer 2015 a fydd yn cynnwys Google a sianelau digidol marchnata eraill a ffefrir. • Mae'r ymgyrch yn yr Almaen hefyd wedi cynnwys llawer o farchnata busnes i fusnes, ac roedd yn cynnwys presenoldeb Cymreig yn yr arddangosfa dwristiaeth ITB Berlin bwysig ym mis Mawrth 2015. • Llwyddodd gweithgarwch Cysylltiadau Cyfryngau yn yr Almaen i gynhyrchu sylw gyda Chyferwerth Hysbysebu (yr hyn y byddai'n gostio i dalu am erthyglau / storïau mewn cylchgronau / papurau newydd ac ati) o fwy na £7 miliwn 	<p>2 – 3</p>
	<p>Cytuno ar gynllun marchnata gwell a chyfunol ar gyfer UDA a gweithredu'r cynllun.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd gweithgarwch yng Ngogledd America yn 2014/15 wedi canolbwyntio ar weithgarwch y fasnach deithio / busnes i fusnes a chysylltiadau cyhoeddus. • Llwyddodd gweithgarwch Cysylltiadau Cyfryngau yn yr UDA i gynhyrchu sylw gyda Chyferwerth Hysbysebu o fwy nag £20 miliwn. • Cafodd ymgyrchoedd marchnata wedi'u targedu eu rhedeg hefyd mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, gan gynnwys marchnata ar y cyd â London & Partners, Marketing Manchester ac American Airlines. 	<p>2 – 3</p>

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

		<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhaodd yr ymgyrch ar y cyd â London & Partners 2.85 miliwn o wylwyr byd-eang i ffilm ecsgliwsif ar-lein am Gymru. 	
	<p>Gweithredu'r cynllun marchnata Golff y cytunwyd arno. Diffinio'r ffordd ymlaen ar gyfer Golff y tu hwnt i 2014/15.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Dangosodd Monitor Twristiaeth Golff fod gwerth golff yn 2014 yn £37.9 miliwn. Roedd cyfanswm yr ymwelwyr golff â Chymru yn 2014 yn 218,000 – cynnydd o 11% o'i gymharu â 2013. • Roedd rhaglen gweithgarwch defnyddwyr twristiaeth golff yn 2014 wedi ennyn 19,000 o ymatebion. Wrth gynnwys pob gweithgarwch marchnata, ychwanegwyd 50,000 o gysylltiadau at y gronfa ddata defnyddwyr golff. • Yn sgil dychwelyd y Bencampwriaeth Agored Golffwyr Hŷn i Borthcawl yn 2017, cytunwyd y byddai'r cynllun marchnata golff yn parhau tan 2017/18. • Mae'r rhaglen gweithgarwch marchnata golff ar gyfer 2015 yn cynnwys – twrnamaint golff a phresenoldeb mewn sioeau defnyddwyr yn y DU, Ewrop a'r UDA; partneriaethau â phrif gyhoeddiadau golff y DU ac ag europeantour.com; rhaglen Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid electronig i'r gronfa ddata defnyddwyr golff; a chyhoeddi argraffiad newydd o'r arweiniad Wales Golf. Roedd gweithgarwch y fasnach deithio'n cynnwys ymweliadau ymgyfarwyddo â chwmnïau teithiau golff a gweithgarwch marchnata ar y cyd â chwmnïau golff â'r rhagolygon gorau mewn marchnadoedd allweddol. 	<p>1 – 2</p>

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

	<p>Cefnogi digwyddiad Dylan Thomas 100 2014.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Trwy gydol 2014 aeth unigolion a sefydliadau ledled Cymru a thu hwnt ati i astudio ac ail-ddehongli gwaith Dylan Thomas mewn ffyrdd newydd a gwreiddiol. Yn fwyaf penodol, bu cydweithio llwyddiannus ag Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru gyda rhaglen Addysg Dylan Thomas 100 a sicrhodd fod 'Dylanwad' yn cyrraedd 12,000 o blant a phobl ifanc drwy weithdai ysgrifennu creadigol a chelf amrywiol, cystadlaethau ysgrifennu creadigol/barddoniaeth a pherfformiadau teithiol 'Dylan Live'. • Mae cannoedd o ddigwyddiadau wedi'u cynnal i gofio ac i edrych ar fywyd, geiriau a thirweddau'r bardd mawr o Gymru, ac a fu hefyd yn cyflwyno ei waith i gynulleidfaoedd newydd ac iau. Trefnwyd gwyliau, rhaglenni teledu a radio wedi'u comisiynu; cystadlaethau, darlleniadau marathon gan enwogion; darnau arian coffaol; cynyrchiadau theatr a dawnys; darlithoedd; arddangosfeydd; teithiau llenyddol ar droed, mewn cwch ac ar gefn ceffyl, a hyd yn oed ap Dylan Thomas ar ffurf Taith Gerdded drwy Greenwich Village yn Efrog Newydd. • Mae'r cydweithredu a fu ar ffurf Dylan Thomas 100 yn 'wersi a ddysgwyd' pwysig ar gyfer prosiectau'r dyfodol a bwriedir cyhoeddi adroddiad terfynol sy'n cofnodi gweithgarwch y Canmlwyddiant sy'n gwerthuso canlyniadau Dylan 100 ar ddiwrnod pen blwydd Dylan Thomas - 27 Hydref 2015. 	<p>1 – 2</p>
--	--------------------------------------------------	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	---------------------

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

	<p>Datblygu cynlluniau gweithredu i gefnogi datblygiad cynhyrchion blaenoriaeth sy'n diwallu anghenion defnyddwyr.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae thema blwyddyn farchnata yn rhoi ffocws ar gyfer anghenion datblygiad cynhyrchion. Mae'r cynllun ar gyfer thema "Blwyddyn Antur" yn awr ar waith, wedi'i ategu gan brosiectau ar lefel cyrchfannau gyda chefnogaeth Cronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol. • Lansio'r Cynllun Gweithredu Twristiaeth Fwyd. • Wedi cyflawni'r gweithgarwch ail flwyddyn sy'n gysylltiedig â'r cynllun gweithredu twristiaeth fydd. 	2 – 3
<p>Cael y cyfryngau i roi mwy o sylw i Gymru mewn marchnadoedd blaenoriaeth i wella ei henw da fel cyrchfan apelgar i ymwelwyr.</p>	<p>Cynnal rhaglen ragweithiol o gysylltiadau cyfryngau sy'n targedu marchnadoedd blaenoriaeth y DU, Iwerddon, yr Almaen ac UDA ac yn canolbwyntio ar gynhyrchion a chyrchfannau blaenoriaeth y cytunwyd arnynt.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cafwyd gwerth mwy na £45 miliwn Cyfwerth Hysbysebu (yr hyn y byddai'n gostio i dalu am erthyglau / storïau mewn cylchgronau / papurau newydd ac ati) yn 2014/15 mewn sylw yng Ngogledd America. • Croesawyd newyddiadurwyr i Gymru o bedwar ban o ganlyniad i weithgarwch Twristiaeth a Marchnata o dan arweiniad VisitBritain. Roedd uchafbwynt y sylw rhyngwladol yn cynnwys erthygl ar Dylan Thomas 100 yn y Washington Post; sylw i Lwybr Arfordir Cymru yn The New York Times; ac erthygl ar Zip World ac antur yng Nghymru yn De Zeit. 	Parhaus
	<p>Gweithredu canlyniad gwaith ymchwil a dadansoddi i farchnad fewnol Cymru trwy raglen gysylltiadau'r cyfryngau/marchnata i dargedu marchnad fewnol Cymru.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cafodd Cynllun Marchnad Fewnol Cymru ei gwblhau yn 2014 a sicrhawyd cyllid i'w weithredu yn 2014/15. • Gwnaethpwyd llawer o farchnata mewnol yng Nghymru yn 2014 a dechrau 2015 gan gynnwys – ymgyrchoedd hysbysebu teledu a radio a gweithgarwch digidol, gan gynnwys. Gwefan Gymraeg newydd a gaiff ei lansio yn haf 2015. 	2 – 3
	<p>Cynorthwyo VisitBritain gyda cheisiadau cysylltiadau cyhoeddus o'u swyddfeydd rhyngwladol mewn marchnadoedd ehangach.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae ymgyrch farchnata ar y cyd â VisitBritain a London & Partners yn awr yn weithredol. • Mae ymgyrch farchnata ar y cyd â VisitBritain, Marketing Manchester ac American Airways hefyd yn awr yn weithredol. 	Parhaus

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

	Datblygu canolfan gyfryngau ar-lein i hwyluso rhannu gwybodaeth gyda'r cyfryngau.	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r prosiect hwn yn cael ei ddatblygu. 	2
	Annog yr arfer o rannu newyddion teithio, straeon, gwybodaeth a digwyddiadau perthnasol gan y diwydiant a rhanddeiliaid (yn cynnwys gwybodaeth am gyrchfannau a meysydd cynnyrch blaenoriaeth y cytunwyd arnynt).	<ul style="list-style-type: none"> Rhodddwyd llawer o gyhoeddusrwydd i gyfeiriad e-bost newyddion ac fe'i defnyddiwyd gan y diwydiant i roi newyddion am gynnyrch i Lywodraeth Cymru ar gyfer ei ddefnyddio mewn nifer o sianelau ac i ddsbarthu cysylltiadau allweddol yn fyd-eang gan gynnwys timau asiantaethau cysylltiadau cyhoeddus a VisitBritain productnews@cymru.gsi.gov.uk. Bu timau Twristiaeth a Marchnata a chysylltiadau cyhoeddus VisitBritain yn cymryd rhan yn Sioeau Teithiol y Diwydiant ddiwedd 2014 gyda'r nod o annog y diwydiant i rannu newyddion a storïau mewn ffordd fwy rhagweithiol â'r ddau sefydliad. 	Parhaus

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

<p>Cynyddu gwerthiant gwyliau Cymru drwy'r fasnach teithio hamdden a chyfryngwyr allweddol eraill.</p>	<p>Iwerddon, yr Almaen, Gogledd America: Dull rhagweithiol yn cynnwys arddangosfeydd/sioeau teithio, ymgyrchoedd prif gwsmeriaid a marchnata (gyda'r 40 rhagolwg gorau), teithiau ymgyfarwyddo, e-newyddion a hyfforddiant; manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd VisitBritain.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae prif ganlyniadau ymchwil 2014 yn dangos twf o 15% mewn niferoedd a thwf o 23% mewn gwerth gan rai o'r 100 gweithredwyr uchaf yng Nghymru. Mae Twristiaeth a Marchnata hefyd wedi dylanwadu ar o leiaf £4.5 miliwn mewn busnes gan y grŵp hwn a bu cynnydd o 65% mewn niferoedd o blith grŵp 'rhagolygon gorau' y gweithredwyr teithiau a dargedwyd ar gyfer Cymru. • Mae rhaglen lawn o weithgareddau wedi cael ei chyflwyno, gan gynnwys digwyddiadau pwysig gyda brand Cymru yn cael proffil uchel ac mewn nifer o achosion cafwyd presenoldeb cryf gan gyflenwyr o Gymru yn – ITB Berlin; Destination Britain North America; United States Tour Operators Association (USTOA); a'r Educational Travel Community Conference (a digwyddiadau eraill – gweler yr adran Fyd-eang isod). • Trefnwyd teithiau ymgyfarwyddo grŵp ar gyfer gweithredwyr allweddol o'r Almaen a Gogledd America hefyd, ynghyd â theithiau ar gyfer trefnwyr gwyliau a gweithredwyr o Ogledd America. • Mae e-gylchlythyr rheolaidd wedi cael ei gyhoeddi sydd ar gael drwy sianelau VisitBritain gyda chynnyrch a chynnwys o Gymru. 	<p>Parhaus</p>
	<p>Gweddill Ewrop ac Awstralia: Ymgyrchoedd marchnata rhai prif gwsmeriaid ac ychydig deithiau ymgyfarwyddo gyda'r 10 rhagolwg gorau yn cynnwys cyfleoedd datblygu llwybrau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae rhai gweithgareddau wedi'u targedu wedi cael eu cynnal yn y marchnadoedd hyn, lle nodwyd cyfleoedd penodol i'w datblygu. Mae gweithredwyr teithiau allweddol o'r Iseldiroedd, y Swistir, Awstria a Rwsia wedi cymryd rhan mewn teithiau grŵp i ymgyfarwyddo. Mae'r gweithgareddau hefyd wedi cynnwys rheoli prif gwsmeriaid drwy ddigwyddiadau a chysylltiadau uniongyrchol. 	<p>Parhaus</p>

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

	<p>Marchnadoedd byd-eang a datblygol: Dull marchnata digidol, gweithio gyda swyddfeydd Llywodraeth Cymru a manteisio ar swyddfeydd VisitBritain a Llywodraeth Cymru (Tsieina, India, Siapan) yn seiliedig ar farchnata ychydig o weithredwyr teithiau blaenllaw.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Trefnwyd presenoldeb cryf a llwyddiannus ar gyfer brand Cymru â phartneriaid yn y World Travel Market, Best of Britain & Ireland, Explore GB a March Marketplace. • Cymerwyd rhan hefyd yn Destination Britain APMEA (Asia Pacific, Middle East and Africa), UKinbound Convention a Seminar Twristiaeth Siapan Cymru (a drefnwyd ar y cyd â Swyddfa Tokyo Llywodraeth Cymru) – ac arweiniodd pob un at gryn ddiddordeb a chamau dilynol. • Mae gwefan gyfunol busnes i fusnes Llywodraeth Cymru wedi'i chadw ac mae rhaglen o e-newyddion byd-eang chwarterol ar waith. • Mabwysiadwyd dull targedu gyda rhagolygon gorau gan gynnwys rheoli cwsmeriaid gorau a theithiau ymgyfarwyddo ar gyfer 3 gweithredwr o Siapan a 2 gwmni o Tsieina. 	<p>Parhaus</p>
<p>Datblygu'r defnydd o gyfryngau marchnata ar-lein i hyrwyddo Cymru'n effeithiol mewn marchnadoedd targed allweddol. Dosbarthu cynnwys perthnasol a defnyddiol sy'n ysbrydoli ymwelwyr i ddewis profiadau cynnyrch penodol yng Nghymru.</p>	<p>Datblygu cynlluniau marchnata digidol/cynnwys ar gyfer marchnadoedd targed allweddol sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau ar gyfer cynnyrch eiconig, brand diwygiedig a gofynion penodol y farchnad.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae cynllun cynnwys cynhwysfawr ar gyfer 2015 wedi cael ei ddatblygu a'i rannu â'r diwydiant. Mae'r cynllun yn adlewyrchu'r blaenoriaethau brandio a marchnadoedd / cynnyrch cyfredol. Mae'r cynllun marchnata "Blwyddyn Antur" ar gyfer 2016 yn cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Croeso Cymru cyn hir. • Cafodd sawl ymgyrch ddigidol/cynnwys eu gweithredu yn 2014 gan gynnwys ymgyrch lwyddiannus iawn ar thema bwyd, a gyflwynwyd mewn partneriaeth â phlattform Food Tube Jamie Oliver yn yr hydref. • Enillodd y tîm digidol Twristiaeth a Marchnata Wobr Digital am Farchnata Aml-sianel am ymgyrch Gwanwyn 2014, ac roedd yn y rownd derfynol yn y categori marchnata integredig ar gyfer Gwobrau Drum Search am ymgyrch yr Hydref. 	<p>2 – 3</p>

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

	<p>Gweithio gyda phartneriaid a rhwydwaith cynnwys i greu, rhannu a dosbarthu deunydd sy'n cyflwyno rhesymau clir dros ymweld â Chymru mewn ffordd sy'n ei gwneud hi'n haws i ganfod a chael gafael ar gynhyrchion, pecynnau a chynigion penodol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cafodd amrywiaeth eang o gynnwys Cymreig ei greu, ei rannu a'i ddosbarthu yn 2014 a hynny ar draws ystod eang o blatfformau gyda'r nod o ysbrydoli ymwelwyr i ystyried Cymru, a gyrru cwsmeriaid at gynnyrch penodol. Roedd uchafbwyntiau'r cynnwys ar gyfer 2014/15 yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ Ffilm gyda'r sêr a gynhyrchwyd ar gyfer Uwchgynhadledd NATO. ○ 5 ffilm Jamie Oliver wedi'u cynhyrchu mewn lleoliadau bwyd ledled Cymru. Roedd y rhain yn amrywio o fwyd Bodnant i Gastell Caerdydd. Roedd cyfanswm y gwylwyr gan gynnwys hysbysebion YouTube yn 795,384. ○ 8 ffilm o Flogiau Teuluol a gynhyrchwyd gyda blogwyr teithio teuluol dylanwadol o'r DU, a oedd yn cynnwys Bear Grylls Adventure, Castell Conwy, Dr Who Experience, Folly Farm a Llancaiach Fawr. Roedd cyfanswm y gwylwyr gan gynnwys hysbysebion YouTube yn 1,882,821. ○ Dros 150 o erthyglau newydd ar y we. • Mae gan Croeso Cymru tua 600,000 o ddilynwyr ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol. 	<p>Parhaus</p>
--	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-----------------------

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

	<p>Dosbarthu cynnwys digidol yn barhaus mewn dull aml-sianel i farchnadoedd blaenoriaeth yn cynnwys: marchnata ar beiriannau chwilio, cyfryngau cymdeithasu, cysylltiadau cyhoeddus ar-lein ac e-bost.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae nifer o sianeli ar-lein yn cael eu defnyddio'n effeithiol i hyrwyddo Cymru mewn marchnadoedd targed allweddol. Efen ganolog o hyn yw dosbarthu cynnwys perthnasol a defnyddiol sy'n ysbrydoli defnyddwyr ac sy'n eu helpu i ddewis profiadau penodol yng Nghymru. • Yn benodol, roedd hyn yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ Cynnal a datblygu'r plattform visitwales.com; ○ Cynnal y plattform hwnnw a'r cyfryngau datblygu cysylltiedig; a ○ Chreu cynnwys digidol i'w osod ar ein cyfryngau digidol ein hunain a dosbarthu'n fwy eang drwy gysylltiadau cyhoeddus ar-lein a chyfryngau lle mae angen talu. 	Parhaus
	<p>Ail-lansio gwefannau ar gyfer marchnadoedd UDA a'r Almaen gan ddarparu cynnwys wedi'i deilwra a chynnwys deunydd brandio a chynnyrch eiconig newydd.</p> <p>Ail-lansio'r wefan Gymraeg yn unol â'r asesiad o anghenion.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cafodd y wefan Almaeneg ei lansio fis Rhagfyr 2014. • Mae fersiwn newydd o'r safle ar gyfer yr UDA yn cael ei ddatblygu sy'n addasu cynnwys visitwales.com (Saesneg yn unig) ar gyfer y farchnad honno. 	2

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

	<p>Cefnogi datblygiad cynnwys a gofynion marchnata digidol ar gyfer unrhyw waith marchnata ar wahân y cytunwyd arno ar gyfer marchnadoedd cynnyrch blaenoriaeth.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cynllun cynnwys manwl ar gyfer 2015, gyda phwyslais ar farchnad y DU/Iwerddon – ond sy'n cynnwys cynlluniau lefel uchel ar gyfer marchnadoedd eraill – cafodd ei rannu â'r diwydiant. • Mae arweinydd ar gyfer y cynnwys Almaeneg wedi ei benodi i gynhyrchu cynnwys Almaeneg ar gyfer y Farchnad hon. • Mae cynnwys ar gyfer marchnad Gogledd America wedi cael ei gynhyrchu mewn partneriaeth â Visit Britain a London & Partners. • Mae cyfleuster chwilio Cronfa Ddata Cynnyrch ar gyfer marchnad Gogledd America yn cael ei ddatblygu i ategu'r gwaith hwn. 	<p>Parhaus</p>
	<p>Cefnogi'r diwydiant i wireddu'r cyfleoedd ar gyfer marchnata digidol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cafodd sioeau teithiol ar gyfer y diwydiant eu cynnal ddiwedd 2014 ac roeddent yn canolbwyntio ar ddatblygiad/cyfleoedd digidol. Cafodd cynllun cynnwys ei rannu'n gynnar yn 2015, gyda'r nod o roi gwell syniad i randdeiliaid o gyfleoedd i gydweithredu. Mae gweithgareddau arweinyddiaeth ddigidol pellach ar gyfer y diwydiant yn cael eu cynllunio ar gyfer 2015. • Mae Rhaglen Fframwaith Twristiaeth Ddigidol yr UE bellach wedi dod o ben ac mae adroddiad gwerthuso wedi'i gyhoeddi. 	<p>1 – 3</p>

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

<p>Darparu cynnwys a chynhyrchion perthnasol am Gymru i VisitBritain, i roi rhesymau unigryw i bobl ymweld â Chymru. yn ein marchnadoedd blaenoriaeth a marchnadoedd allweddol eraill nad oes gan Croeso Cymru'r adnoddau i ddarparu'n uniongyrchol iddynt</p>	<p>Sefydlu cysylltiadau gweithio cryfach gyda VisitBritain ar bob lefel. Archwilio'r potensial i recriwtio swyddog partneriaeth VisitBritain a/neu gael aelod o staff yn gweithio yn VisitBritain.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae aelod o staff Llywodraeth Cymru yn awr ar secondiad gyda VisitBritain i sicrhau cydweithrediad gwell, ac mae wedi rhoi arweiniad strategol i brosiectau, wedi sicrhau dull cydlynol o weithio, wedi gwella cyfleoedd perthnasol i Gymru ac wedi rhoi cymorth uniongyrchol â chynnwys ar gyfer ymgyrchoedd a chynlluniau'n ôl yr angen. • Mae'r timau cyflenwi Twristiaeth a Marchnata wedi cydweithio'n agos â thimau gweithredol yn VisitBritain i gynnwys Cymru ym mhob gweithgarwch- cafodd Cymru sylw amlwg fel rhan o lansiad yr Ymgyrch Cefn Gwlad ym Manhattan, er enghraifft. 	<p>Parhaus</p>
	<p>Dylanwadu ar strategaethau VisitBritain ar gyfer marchnadoedd unigol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn y broses o drafod Dangosyddion Perfformiad Allweddol lefel uchel gyda VisitBritain a'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ar gyfer VisitBritain yn 2015/16. • Yn 2014 bu cydweithio agos i ddylanwadu ar strategaethau VisitBritain yn yr Almaen a'r UDA yn ogystal â'u strategaethau ar gyfer Ymgyrch thematig Cefn Gwlad. • Hefyd wedi dylanwadu ar weithgareddau VisitBritain mewn amrywiaeth eang o Farchnadoedd eraill, yn enwedig o safbwynt cysylltiadau cyhoeddus a gwaith y Fasnach Deithio. • Wrthi ar hyn o bryd yn dylanwadu ar ymgyrchoedd marchnadoedd penodol a thematig VisitBritain ar gyfer 2015/16: Countryside, Culture and Luxury. 	<p>Parhaus</p>
	<p>Datblygu profiadau cynnyrch eiconig i'w cynnwys yn ymgyrchoedd a rhaglenni marchnata VisitBritain.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bwydo gwybodaeth a chynnwys i holl weithgarwch VisitBritain drwy gyfrwng secondai Llywodraeth Cymru gyda VisitBritain, a chysylltiadau parhaus rhwng timau gweithredol. 	<p>1 – 3</p>

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

<p>Cynyddu marchnad cyfarfodydd, cynadledda, digwyddiadau ac arddangosfeydd drwy fuddsoddi mewn cyfleusterau newydd a dulliau marchnata newydd.</p>	<p>Marchnata'n ddigidol i gronfa ddata twristiaeth busnes cyfredol Croeso Cymru, helpu trefnwyr digwyddiadau a chefnogi cyfleoedd tactegol a gynigir gan y biwro cynadleddau rhanbarthol e.e. teithiau ymgyfarwyddo.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae cynnwys integredig ar y we (masnach teithio/mordeithiau/golff/ digwyddiadau busnes) yn cynnwys gwybodaeth a chysylltiadau ar gyfer y fasnach deithio a threfnwyr cyfarfodydd/digwyddiadau/cynadleddau. Mae cynnwys digwyddiadau busnes – gan gynnwys chwilio am ganolfannau – ar gael yn www.businessevents.visitwales.com (Saesneg yn unig). Mae e-gylchlythyr digwyddiadau busnes chwe-misol hefyd yn cael ei ddosbarthu. • Cafodd ymgyrch proffil uchel ei rhedeg yn 2014 a oedd yn defnyddio Uwchgynhadledd NATO Cymru i gyflwyno Cymru fel cyrchfan ar gyfer digwyddiadau busnes • Stodin brand Cymru yn gweithredu fel llwyfan effeithiol ar gyfer cyflenwyr Cymreig yn y Meetings Show 2015 yn Olympia ym mis Gorffennaf. 	<p>Parhaus</p>
	<p>Gwerthuso cyfleoedd marchnata yng ngoleuni datblygiadau cynnyrch disgwylidig, strategaeth sector yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a strategaeth digwyddiadau mawr a pharatoi cynllun ar gyfer gweithgarwch Blwyddyn 2.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Monitro cynnydd ar drafodaethau ar gyfer canolfan gynadleddau newydd. Mae Astudiaeth Gwmpasu yn yr arfaeth i ymchwilio i'r farchnad bosibl yn awr ac yn y dyfodol ar gyfer digwyddiadau busnes yng Nghymru ac i ddatblygu Strategaeth Twristiaeth Busnes ar gyfer Cymru. • Bydd datblygu canolfan gynadledda ac arena yn datblygu'r cynnyrch cynadledda a digwyddiadau a gwella gallu Cymru i gynnal digwyddiadau. 	<p>1 – 2</p>
<p>Annog ymwelwyr blaenorol a grwpiau allweddol eraill gyda chysylltiadau â Chymru i fod yn eiriolwyr cryf dros Gymru ac i ddychwelyd yma.</p>	<p>Marchnata'n uniongyrchol i ymholwyr cyfredol Croeso Cymru i barhau fel rhan o gynlluniau marchnata.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Anfonwyd bron i 4 miliwn o ohebiaethau at y sawl oedd wedi ymateb i ymgyrchoedd blaenorol mewn marchnadoedd targed. Roedd 70% o'r rhain yn negeseuon e-bost ac roedd 30% yn ddeunydd printiedig a bostiwyd. • Yn ystod ymgyrchoedd Hydref 2014 a Gwanwyn 2015 datblygwyd partneriaethau brand newydd i gyfleu neges 	<p>Parhaus</p>

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

		<p>Cymru i gynulleidfaoedd yr ymgysylltwyd â hwy eisoes. Gan weithio ag amryw o bartneriaid gan gynnwys BBC Good Food, Blacks (y siop offer awyr agored) a Jamie Oliver, arweiniodd marchnata uniongyrchol wedi'i anelu at gysylltiadau partner dros 40,000 o ymatebion newydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r cysylltiadau â chysylltiadau presennol drwy ddefnyddio Facebook a Twitter yn barhaus. Rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015, bu cynnydd o 19% yng nghymuned Facebook Croeso Cymru. • Yn ystod yr un cyfnod bu cynnydd o 135% yn nifer dilynwyr Croeso Cymru ar Twitter, o 39,817 i 93,564. 	
<p>Gwireddu'r cyfleoedd twristiaeth sy'n codi o waith ehangach Llywodraeth Cymru a hyrwyddo Cymru ar draws marchnadoedd rhyngwladol, yn enwedig lle maent yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau ar gyfer marchnadoedd twristiaeth.</p>	<p>Cydgysylltu gwaith a chynlluniau marchnata i nodi cyfleoedd ar gyfer cydgysylltu marchnata a gwaith arall ar draws adrannau Llywodraeth Cymru.</p> <p>Croeso Cymru yn ymateb i geisiadau marchnata ychwanegol a gweithgarwch marchnata tactegol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rhoddwyd cefnogaeth i'r cyfleoedd marchnata ychwanegol canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ Cyrchfannau arfordirol yn dilyn y llifogydd yn gynnar yn 2014 – a effeithiodd ar y farchnad hyd haf 2014; ○ Uwchgynhadledd NATO Cymru 2014; ○ Hysbysebu'n gysylltiedig â Rali Cymru GB a digwyddiadau eraill; ○ Adnewyddu cytundeb Nawdd Dinas Abertawe; a ○ Chefnogaeth i lwybrau Maes Awyr Caerdydd. 	<p>Parhaus</p>

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

	<p>Codi proffil Cymru drwy ddarllediadau, rhaglenni a ffilmiau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd Dylan Thomas 100 yn gyfle i fanteisio ar sylw i Gymru mewn darllediadau ac ar ffilm mewn amrywiaeth o Farchnadoedd. • Wedi hybu dosbarthiad byd-eang y rhaglen deledu “Hinterland” ar gyfer sylw cysylltiadau cyhoeddus mewn amrywiaeth o farchnadoedd. Bwriedir cynnal gweithgareddau pellach i gyd-fynd â lansio ail Gyfres yn 2015. • Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi cynyrchiadau teledu / ffilm sy’n cael eu gwneud yng Nghymru gyda sawl darllediad pwysig yn yr arfaeth ac wedi’u cynllunio ar gyfer eu darlledu yn 2015. 	<p>1 – 3</p>
<p>Cynyddu nifer a gwerth ymweliadau mordeithiau â Chymru.</p>	<p>Gweithio mewn partneriaeth i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu brand Cymru fel cyrchfan i fordeithiau • Hyrwyddo porthladdoedd mordeithiau drwy dargedu ymgyrchoedd gwerthu • Annog buddsoddiad mewn cyfleusterau porthladdoedd, lle bo angen, i ddarparu angorfeydd effeithlon a chroeso unigryw i Gymru • Annog datblygiad amserlenni teithio ar y lan ar gyfer teithiau mordeithiau sydd wedi’u pecynnu’n ddeniadol ac yn darparu profiad Cymreig unigryw a gwahanol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Yn 2015, disgwylir i 46 o longau mordeithiau alw yng Nghymru – cynnydd o 155% ers 1 Ionawr 2013. • Amcangyfrifir y bydd 22,500 o deithwyr – cynnydd o 14% o flwyddyn i flwyddyn gyda effaith economaidd o £2.9 miliwn. • Buddsoddwyd £30,000 yng Nghaergybi gydag IOACC ar gyfer gweithgareddau croesawu mordeithiau. • Cafodd stondin newydd ei dylunio ar gyfer Seatrade Europe i godi ymwybyddiaeth o frand Cymru ar lefel fyd-eang. 	<p>Parhaus</p>

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

	<p>Gweithredu cynllun marchnata mordeithiau y cytunwyd arno.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Trefnwyd ymweliad ymgyfarwyddo ar gyfer swyddogion gweithredol cwmnïau mordeithiau. • Cafodd ymweliad ymgyfarwyddo ei gynnal ar gyfer Is-lywydd Seabourn Cruises a fu'n ymweld â phob porthladd ar 30 Mai 2015. • Mae 1 llong wedi'i threfnu ar gyfer Aberdaugleddau yn 2016 a 2 ar gyfer 2017 yn Abergwaun a Chaergybi. • Cynhaliwyd ymweliad ymgyfarwyddo gan Intercruises i gyflwyno treftadaeth ddiwylliannol Rhondda Cynon Taf a Thorfaen. • Ym mis Chwefror, cynhaliwyd gweithdai cynllunio teithiau ledled Cymru ar gyfer atyniadau a darparwyr lleol. • Cynhaliwyd diwrnod recriwtio yng Ngholeg Menai ym Mangor mewn cydweithrediad â Viking Recruitment ar gyfer Seabourn cruise Line. 	<p>Parhaus</p>
<p>Cynyddu gwerth yr ymwelwyr tramor sy'n dod i Gymru gan deithio drwy feysydd awyr cyfagos</p>	<p>Gweithio mewn partneriaeth i godi ymwybyddiaeth o Gymru a darparu rhesymau newydd i ymweld yn y meysydd awyr (Caerdydd, Manceinion, John Lennon Lerpwl, Birmingham a Bryste) ac mewn marchnadoedd targed.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal cyfres o ymgyrchoedd tactegol mewn marchnadoedd rhyngwladol ehangach gan gynnwys gweithgarwch i fanteisio ar ddatblygiad llwybrau newydd gan Faes Awyr Cymru Caerdydd. 	<p>2 – 3</p>

DATBLYGU CYNNYRCH

Blaenoriaethau Strategol

- Sbarduno buddsoddiad mewn cynnyrch a digwyddiadau o'r radd flaenaf all newid syniadau pobl er gwell
- Gweithio â phartneriaid sydd â hanes o lwyddo a photensial i dyfu
- Pennu blaenoriaethau strategol buddsoddiadau'r Llywodraeth

Beth sydd angen i ni ei wneud i ddatblygu'r strategaeth	Sut ydym yn ei wneud? / Camau yn yr Arfaeth	Cyflawniadau / Cynnydd Hyd Yma	Amseriad (blynyddoedd)
<p>Gwella ansawdd profiad yr ymwelydd ledled y diwydiant yn cynnwys llety â gwasanaeth a hunanddarpar, carafanio a gwersylla, atyniadau a gweithgareddau.</p>	<p>Cynyddu'r cyllid cyffredinol sydd ar gael i ysgogi buddsoddiad mewn twristiaeth.</p>	<p>Rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth 2015 mae'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS) wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Creu a diogelu cyfanswm o 311 o swyddi yn erbyn targed o 200 (am y flwyddyn). • Wedi ysgogi £13.9m o fuddsoddiad yn erbyn targed blynyddol o £8m, gan gynnwys buddsoddiadau strategol sy'n ychwanegol at TISS yn Surf Snowdonia, Zipworld (Llechwedd), Gwesty Kinmel Manor (Abergele), a Dylans (Cricieth). • Mae Twristiaeth a Marchnata wedi bod yn arwain dau brosiect strategol Ewropeaidd o dan y rhaglen Amgylchedd ar gyfer Twf sy'n werth dros £37 miliwn ers 2010 i ddatblygu 7 Canolfan Ragoriaeth eiconig yng Nghymru yn ogystal â gwelliannau arfordirol ar hyd ein traethau. • Cafodd y prosiect twristiaeth Arfordirol ei ehangu i gynnwys datblygiadau ychwanegol yn Harbwr Saundersfoot. Mae'r prosiectau twristiaeth arfordirol a chynaliadwy bellach wedi'u cwblhau. 	<p>Parhaus</p>
		<ul style="list-style-type: none"> • Mae trafodaethau'n parhau â phartneriaid a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) i ddatblygu prosiect seilwaith twristiaeth. 	<p>Parhaus</p>

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

		<ul style="list-style-type: none">• Mae'r sector twristiaeth wedi elwa hefyd drwy fanteisio ar Gronfa Twf Economaidd Cymru (WEGF) yn 2014 sy'n gronfa swyddi / twf ehangach sy'n cael ei gweinyddu drwy Adran Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru, ac mae enghreifftiau o brosiectau twristiaeth llwyddiannus yn cynnwys Gwesty'r Cliff yng Ngwbert a'r Mansion House yn Llansteffan.• Mae Cronfa Cymunedau'r Arfordir (CCF), sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth y DU, ar gael ledled y DU. Mae swyddogion Twristiaeth a Marchnata wedi cydweithio'n glos â thîm y CCF i sicrhau'r buddiannau mwyaf posibl i Gymru. Yn nhrydedd flwyddyn y rhaglen eleni, dyfarnwyd £4.6m i brosiectau a oedd yn gwella profiad yr ymwelydd yng Nghymru.• Roedd y prosiectau'n cynnwys £300,000 i wneud gwelliannau sylweddol i harbwr a marina Aberystwyth; a bydd Cyngor Sir Gwynedd yn cael £280,205 ar gyfer prosiect dwy flynedd i wella 13 o lwybrau llinol neu gylchol sy'n cysylltu cymunedau at Lwybr Arfordir Cymru – a fydd yn cynyddu budd economaidd y llwybr yng Ngwynedd.	
--	--	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

	<p>Cefnogi'r diwydiant i wella hygyrchedd cyffredinol y cynnyrch twristiaeth yng Nghymru i bawb yn cynnwys: teuluoedd, pobl hŷn a'r rhai ag anableddau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae cyngor a chymorth parhaus yn cael eu darparu i fusnesau twristiaeth i wella eu hygyrchedd. Mae nifer o welliannau seilwaith allweddol hefyd wedi cael eu datblygu drwy raglenni Arfordiroedd a Moroedd Glas Amgylchedd ar gyfer Twf yr UE, gan wella mynediad i draethau a mynediad i ymwelwyr ar hyd yr arfordir a chyfleusterau i ymwelwyr. 	Parhaus
<p>Ysgogi buddsoddiad cyfalaf yn y cynhyrchion "gorau o'u math" sy'n mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau'r cwsmer ar bob lefel y cynnyrch ac sydd â'r gallu i ymestyn y tymor, yn enwedig:</p>		<ul style="list-style-type: none"> Mae cymorth cyfalaf hyd at £500,000 ar gael i brosiectau buddsoddiad cyfalaf twristiaeth cymwys drwy'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS). Gall prosiectau ar raddfa fwy hefyd gael cymorth gan adnoddau eraill Llywodraeth Cymru, a hynny fesul achos unigol. 	Parhaus
<ul style="list-style-type: none"> mwy o westai moethus a brand 	<p>Nodi safleoedd datblygu allweddol ledled Cymru.</p> <p>Datblygu cysylltiadau gyda chynhyrchion brand a buddsoddwyr mewnol posibl.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar nifer o gynigion posibl ar gyfer mewnffuddsoddi. 	<p>1 – 3</p> <p>2 – 3</p>
<ul style="list-style-type: none"> mwy o gyfleusterau lles fel sbas a chanolfannau lles 	<p>Gwella ymwybyddiaeth y diwydiant o gynlluniau ac arferion da ym maes sbas a lles.</p> <p>Creu mwy o gyfleoedd i ddarparu cymorth cyfalaf ar gyfer cyfleusterau sba/lles.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth yn gallu cefnogi datblygiadau sba arfaethedig ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys datblygiad diweddar y sba yn Kinmel Manor, Abergele, ac mae trafodaethau'n parhau â darparwyr eraill. 	<p>2</p> <p>2</p>

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

<ul style="list-style-type: none"> mwy o westai treftadaeth sy'n defnyddio adeiladau hanesyddol ac unigryw 	<p>Nodi safleoedd datblygu allweddol ledled Cymru.</p> <p>Ymchwilio a nodi ffynonellau cyllido ychwanegol i gefnogi buddsoddiad.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Yn y broses o ganfod ac ymchwilio i gyfleoedd i ddatblygu safleoedd yng Nghymru, er enghraifft, y datblygiad yng Nghastell Harlech, sy'n cynnwys pont newydd, fflatiau, canolfan ymwelwyr, ystafelloedd te a phrofiad clyweledol. Mae'n rhan o Brosiect Twristiaeth Treftadaeth gwerth £19m a ariennir yn rhannol gan yr ERDF. 	2
<ul style="list-style-type: none"> mwy o atyniadau, gweithgareddau a phrofiadau diwylliannol/ treftadaeth gydol y flwyddyn sy'n gallu cynyddu apêl ac enw da Cymru 	<p>Darparu gweithdy diwydiant/taith ddysgu i:</p> <ul style="list-style-type: none"> archwilio anghenion y farchnad yn y dyfodol rhannu arferion gorau deall cyfleoedd arloesol e.e. tocynnau cyfunol, dehongli o'r radd flaenaf – digidol a pherson cyntaf, cyfleusterau bob tywydd, gwireddu potensial fel lleoliadau ar gyfer rhaglenni teledu a ffilmiau ystyried atebion cyllido. <p>Cynnig cyfradd ymyrryd uwch ar gyfer cymorth cyfalaf ar gyfer cyfleusterau pob tywydd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio â'r diwydiant i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan o safon, helpu i ymestyn y tymor ymwelwyr, gwella seilwaith a chefnogi buddsoddiad mewn hyfforddiant i hybu cynnyrch o safon a gwella profiad yr ymwelwyr. Bydd datblygiadau arloesol yn Zipworld a Surf Snowdonia yn cael eu dilyn gan gynnyrch eraill o'r DU a thramor wrth i'r ymdrech i wella enw da ennill tir. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal â Cadw a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar rannu manteision cynllun aelodaeth y ddau sefydliad. Mae nifer o gynigion yn cael eu hystyried gan gynnwys trefniadau a fyddai'n caniatáu i aelodau'r naill sefydliad gael ymweld â safleoedd y llall yn ddi-dâl neu am bris gostyngol. Mae gweithrediadau sy'n llai dibynnol ar amrywiadau yn y tywydd yn cael ystyriaeth ffafriol mewn prosesau arfarnu grantiau. 	2
<ul style="list-style-type: none"> Mwy o gynhyrchion arloesol, anarferol ac unigryw sy'n creu cysylltiadau gwell wrth i bobl feddwl am Gymru. 	<p>Darparu cymorth 'tîm arbenigol' ar gyfer cynhyrchion arloesol a chreu mwy o gyfleoedd i ddarparu cymorth cyfalaf.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae 'Tîm arbenigol' wedi cael ei ffurfio a gellir galw arno i ymateb i gynigion datblygu strategol allweddol. 	1 – 3

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

<p>Cymryd mwy o ran mewn cynlluniau sicrhau ansawdd cenedlaethol i helpu i godi safonau ansawdd a rhoi sicrwydd i gwsmeriaid.</p>	<p>Cyflwyno a gweithredu newidiadau i wella effeithlonrwydd a chynyddu nifer y cynlluniau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae 5,736 o fusnesau wrthi'n cymryd rhan yn y Cynllun Ansawdd, yr un faint â'r llynedd. • Cynhyrchwyd adroddiad i ddod â Cham 1 yr arolwg o Gynlluniau Sicrhau Ansawdd Llety Ymwelwyr i ben ac mae ei ganfyddiadau a'i argymhellion yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru a chyrrff Twristiaeth Cenedlaethol eraill. Bydd hyn yn cynnwys asesu beth mae busnesau, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn rhan o'r cynllun ar hyn o bryd, yn ei ddisgwyl ac yn gofyn amdano oddi wrth gynllun ansawdd llety twristiaeth annibynnol; beth mae busnesau'n ei ddisgwyl gan Gyrrff Twristiaeth Cenedlaethol a beth yw'r rhwystrau rhag cymryd rhan mewn cynlluniau o'r fath. 	<p>2</p>
<p>Gwellu enw da Cymru fel cyrchfan fwyd o safon uchel.</p>	<p>Datblygu cynllun gweithredu twristiaeth fwyd i ddarparu rhaglen weithgarwch gydgysylltiedig er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwellu ansawdd ac amrywiaeth gyffredinol y bwyd sydd ar gael • Codi ymwybyddiaeth o ansawdd y bwyd sydd ar gael i ymwelwyr • Annog y defnydd o gynnyrch lleol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Lansiwyd y Cynllun Gweithredu Twristiaeth Fwyd ar 30 Ebrill. Gellir ei lwytho i lawr yn www.gov.wales • Mae gwaith yn parhau i gyflawni yn erbyn y camau gweithredu yn y cynllun ac mae trafodaethau â rhanddeiliaid yn cael eu cynnal ar weithio mewn partneriaeth ar dwristiaeth fwyd – er enghraifft, y posibilrwydd o weithio â'r sector Addysg Bellach i hyrwyddo defnydd o gynnyrch Cymreig / lleol ymhlith myfyrwyr arlwygo a lletygarwch. • Mae prosiect peilot yn cynnig cymorth i fusnesau i ddatblygu eu twristiaeth fwyd eu hunain. • Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth i nifer o sefydliadau bwyd newydd o ansawdd uchel drwy'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth – Bwytaï Dylan's, Shel a Sea Shanty. 	<p>Parhaus</p>

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

<p>Cynyddu nifer, amrywiaeth ac ansawdd Digwyddiadau mawr a digwyddiadau sydd â photensial i dyfu.</p>	<p>Adolygu ac adfywio'r strategaeth Digwyddiadau Mawr – cyhoeddi cynllun gweithredu strategol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cafodd adolygiad o'r strategaeth digwyddiadau mawr ei gwblhau yn 2012/13 ac mae meini prawf asesu newydd wedi'u cyhoeddi. • Mae adolygiad ar waith yn awr ar flaenoriaethau strategol ar gyfer 2019/20 a thu hwnt. 	<p>Parhaus</p>
	<p>Gweithredu strategaeth/cynllun gweithredu Digwyddiadau Mawr.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn 2014/15 39 cefnogwyd digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol, gan gynnwys y Bencampwriaeth Agored Golffwyr Hŷn; Pencampwriaethau Athletau Ewropeaidd yr IPC; Gŵyl Gomedï Machynlleth; Gŵyl y Gelli; a Gŵyl Storïau Ryngwladol Beyond the Border; a Rownd Derfynol Uwch-gwpan UEFA. • Cyflawnodd y rhaglen lawn o ddigwyddiadau a gefnogwyd yn 2014/15 y canlyniadau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ 350,000+ o ymwelwyr o'r DU a thramor; ○ £62 miliwn o effaith economaidd uniongyrchol; a ○ 1,400 o swyddi cyfwerth ag amser llawn wedi'u cynnal. • Mae rhaglen 2015/16 yn yr arfaeth. Hyd yma mae 34 o ddigwyddiadau wedi'u cadarnhau, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ Gŵyl Gomedï Machynlleth; ○ Gŵyl y Gelli; ○ Velothon UCI Cymru; ○ Cyfres Hwylïo Eithafol; ○ Gêm Brawf y Lludw; ○ Gŵyl Rhif 6; ○ Cwpan Rygbi'r Byd; a ○ Gwledd Conwy. 	<p>Parhaus</p>
	<p>Darparu canllawiau a chymorth strategol i'r diwydiant Digwyddiadau Mawr.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gwefan newydd sy'n rhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau mawr yn cael ei datblygu. Pan fydd yn barod, bydd yn gweithredu fel adnodd ar-lein ar gyfer y diwydiant digwyddiadau. 	<p>Parhaus</p>

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

	Gweithio â phartneriaid i ddatblygu calendr cynhwysfawr o ddigwyddiadau yng Nghymru.	<ul style="list-style-type: none"> Mae calendr o ddigwyddiadau ar gael drwy ddilyn y ddolen isod :http://www.visitwales.com/things-to-do/whats-on (Saesneg yn unig). 	Parhaus
Galluogi'r ymwelydd i ganfod ac archebu holl elfennau eu taith yn hawdd.	Cefnogi'r dull marchnata sy'n seiliedig ar gynnyrch eiconig drwy gymorth datblygu ar gyfer cynhyrchion eiconig.	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i gefnogi cynigion buddsoddi arloesol sy'n cefnogi dull seiliedig ar gynnyrch y strategaeth dwristiaeth. 	1 – 3
	Annog y diwydiant i gydweithio i amlygu beth sydd ar gael i'r ymwelydd.	<ul style="list-style-type: none"> Cymorth i ddarparu gwybodaeth o safon uchel i ymwelwyr drwy'r Grŵp Rhwydwaith Gwybodaeth i Dwristiaid (TING) a'u helpu i sefydlu eu hunain fel Mentrau Cymdeithasol cydweithredol dielw. Gweithio â Phartneriaid Cyrchfannau a rhanddeiliaid ledled Cymru i helpu i ddatblygu gwybodaeth a dehongli i ymwelwyr ar ac oddi ar safleoedd. Prosiectau ar gyfer dehongli ar drafnidiaeth ymwelwyr yn Abertawe, Sir Benfro, Clawdd Offa, Safleoedd Treftadaeth y Byd ym Mlaenafon a Phontcysyllte. 	1 – 3
Cynyddu'r defnydd o dechnoleg i helpu busnesau i fod yn effeithlon, ehangu dalgylch gwaith marchnata ac i wella profiad yr ymwelydd.	Arddangos arferion gorau ac annog busnesau i ddefnyddio atebion digidol.	<ul style="list-style-type: none"> Datblygwyr elfen ddiagnostig Prosiect Fframwaith Busnes Twristiaeth Ddigidol (DTBF) yr UE i roi sylw i bryderon ynghylch TGCh mewn busnesau twristiaeth bach. Mae'r rhaglen bellach wedi'i chwblhau ac mae adroddiad gwerthuso wedi'i gyhoeddi. Mae Cyfarwyddiaeth Gyffredinol y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer polisi Rhanbarthol a Threfol wedi dewis y prosiect fel sydd wedi cyrraedd rownd derfynol RegioStars 2015 ar gyfer prosiectau arloesol yn y categori SMART GROWTH: Unleashing SME growth potential for a digital economy. Mae pecyn hunan asesu TGCh wedi'i ddatblygu ar gyfer busnesau twristiaeth: http://business.wales.gov.uk/cy/ict-tool. 	Parhaus

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

<p>Annog datblygiad Canolfan/ Arena Gynadledda Ryngwladol o fewn Rhanbarth y Brifddinas.</p>	<p>Darparu gwybodaeth ymchwil, cyngor ar dir ac eiddo a chymorth cyllido priodol i ddatblygwyr posibl er mwyn ysgogi buddsoddiad.</p>	<ul style="list-style-type: none">Mae Gwesty Hamdden y Celtic Manor wedi cael caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru; yn amodol ar ganiatâd cynllunio llawn, disgwylir y bydd yn agored ar gyfer haf 2018.	<p>Parhaus</p>
----------------------------------------------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-----------------------

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

POBL			
Blaenoriaethau Strategol <ul style="list-style-type: none"> Hyfforddi ein pobl fel y gallant ffynnu yn y sector twristiaeth Defnyddio'u sgiliau i sicrhau cwsmeriaid mwy bodlon a gwella'u profiad cyffredinol Newid syniadau pobl am dwristiaeth fel dewis da ar gyfer gyrfa 			
Beth sydd angen i ni ei wneud i ddatblygu'r strategaeth	Sut ydym yn ei wneud? / Camau yn yr Arfaeth	Cyflawniadau / Cynnydd Hyd Yma	Amseriad (blynyddoedd)
<p>Gwella lefelau sgiliau cyffredinol i ddiwallu anghenion y sector twristiaeth a lletygarwch yn awr ac yn y dyfodol.</p>	<p>Cyflwyno fframwaith sgiliau cenedlaethol yn amlinellu anghenion y diwydiant, y bwlch sgiliau a phrinder sgiliau a'r camau gweithredu sydd eu hangen i fynd i'r afael â hyn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru sydd â'r prif gyfrifoldeb am y fframwaith sgiliau cenedlaethol. Bydd Twristiaeth a Marchnata'n gweithio â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i adolygu cynlluniau ar gyfer cyflogaeth a sgiliau yn y sector twristiaeth. Mae adroddiad wedi ei gomisiynu gan People 1st i ganfod bylchau mewn sgiliau. Ymgynghorir â'r diwydiant (drwy'r Fforymau Rhanbarthol) ar sut y gall Llywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth â People 1st a chyrrff eraill i roi sylw i'r anghenion sgiliau a ddaw i'r amlwg. 	<p>2</p>

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

	<p>Lle bo'n briodol, datblygu atebion priodol (cymwysterau, dysgu hyblyg a phrentisiaethau) sy'n mynd i'r afael â bylchau penodol mewn sgiliau a/neu brinder sgiliau a helpu i wella'r croeso a'r profiad i ymwelwyr.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd gweithio mewn partneriaeth â'r Adran Addysg a Sgiliau (DfES) yn helpu i sicrhau dull strategol o weithio, er enghraifft, atgyfeirir busnesau at Borth Sgiliau'r Adran i gael cyngor a chymorth. • Mae atebion penodol i ganfod a rhoi sylw i fylchau mewn sgiliau'n cael eu hystyried yn ogystal ag edrych sut y gellir helpu busnesau gyda dysgu ar-lein hyblyg. 	1 – 3
	<p>Creu Rhwydwaith o ganolfannau rhagoriaeth/ ysgolion gwestai yn cynnwys sefydliadau sy'n cynnig cyfleoedd hyfforddi a datblygu rhagorol a cheisio cael achrediad rhyngwladol lle bo'n briodol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae hwn yn waith sy'n cael ei arwain gan yr Adran Addysg a Sgiliau ac mae trafodaethau cychwynnol yn cael eu cynnal ar y posibilrwydd o ddatblygu canolfan ragoriaeth mewn lletygarwch. Mae gwaith â phartneriaid i ystyried cyfleoedd posibl ar gyfer rhwydwaith o ysgolion lletygarwch yn parhau. 	1 – 3
	<p>Cefnogi datblygiad a threialu Prentisiaeth Rhaglenni Awyr Agored newydd i sicrhau ei bod yn adlewyrchu anghenion y sector awyr agored yng Nghymru yn llawn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd Llywodraeth Cymru yn gysylltiedig â datblygiad Prentisiaeth Rhaglenni Awyr Agored Lefel 3 drwy weithio mewn partneriaeth â'r Sefydliad Twristiaeth Gweithgareddau Cymru (WATO). • Mae prentisiaeth Lefel 4 yn awr yn cael ei datblygu. 	1 – 3

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

<p>Gwella canfyddiadau o'r cyfleoedd gyrfa sydd ar gael yn y sector twristiaeth a lletygarwch.</p>	<p>Datblygu cynllun i gefnogi a chydgysylltu gweithgareddau sefydliadau ledled Cymru sy'n gallu hyrwyddo a/neu ddarparu gwybodaeth am:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y swyddi a'r cyfleoedd datblygu gyrfa hwyliog a hyblyg sydd ar gael • cyfleoedd profiad gwaith • y rhaglenni dysgu a chymwysterau sy'n addas i'r diben yn ôl y diwydiant • y darparwyr dysgu sy'n gallu cefnogi unigolion i ddatblygu eu gyrfa • defnyddio sgiliau a phrofiad gweithwyr proffesiynol y diwydiant • datblygu dull rhaglen Llysgenhadon. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae cynllun wedi'i ddatblygu i wella canfyddiadau pobl o yrfaedd mewn twristiaeth a lletygarwch. Mae trafodaethau â People 1st a phartneriaid eraill sy'n cynnwys Cymdeithas Lletygarwch Prydain ar sut y gallwn gyflawni hyn yn parhau. • Cynhaliwyd cynllun peilot bychan yn ystod Wythnos Dwristiaeth 2015 pan fu busnesau lletygarwch yn gwahodd myfyrwyr ysgol i gael profiad o'r amrywiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael. • Roedd stondin twristiaeth yn Sgiliau Cymru 2014 a bwriedir cael un arall yn 2015. 	<p>2</p>
<p>Cefnogi darpariaeth hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid priodol yn y diwydiant.</p>	<p>Paratoi cynllun i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gwasanaeth cwsmeriaid • cydnabod rhagoriaeth wrth ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid • cynyddu nifer y staff sy'n ymdrin â chwsmeriaid yn y diwydiant twristiaeth yng Nghymru sydd wedi cael hyfforddiant drwy raglen gwasanaeth cwsmeriaid gydnabyddedig • rhannu arferion gorau. 	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd adroddiad People 1st ar fylchau mewn sgiliau, sydd wedi canfod yr angen am sgiliau Gwasanaeth Cwsmeriaid yn y sector, yn cael ei adolygu ac edrychir ar gyfleoedd i weithio â'r diwydiant i roi sylw i'r diffyg hwn. 	<p>2</p>

PERFFORMIAD PROFFIDIOL

Blaenoriaethau Strategol

- Meithrin gallu'r diwydiant i ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i gyrraedd cwsmeriaid posibl a dylanwadu arnyn nhw
- Cynyddu elw busnesau twristiaeth trwy ddulliau fel rheoli cynhyrchiant

Beth sydd angen i ni ei wneud i ddatblygu'r strategaeth	Sut ydym yn ei wneud? / Camau yn yr Arfaeth	Cyflawniadau / Cynnydd Hyd Yma	Amseriad (blynyddoedd)
Annog busnesau lletygarwch Cymru i ddefnyddio mwy o fwyd, nwyddau a gwasanaethau lleol	Datblygu gwybodaeth/pecyn cymorth ar-lein i'r diwydiant i hyrwyddo manteision defnyddio nwyddau a gwasanaethau lleol.	<ul style="list-style-type: none"> • Yn dilyn lansio'r Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod, cafodd pecyn cymorth ei gynhyrchu drwy'r Prosiect Peilot Cymorth Busnes a bydd ar gael ar wefan Rheoli Cyrchfannau Cymru yn ystod 2015. 	2
	Cefnogi mentrau sy'n cryfhau cysylltiadau rhwng busnesau lletygarwch a chyflenwyr nwyddau a gwasanaethau lleol.	<ul style="list-style-type: none"> • Cafodd tri digwyddiad "Cwrdd â'r Cynhyrchwyr" llwyddiannus eu cynnal ledled Cymru gyda'r sector Twristiaeth a Lletygarwch ledled Cymru – gan helpu ffermwyr, cynhyrchwyr, cyflenwyr, perchnogion bwytai a gwestai i ddod i adnabod ei gilydd ac i roi cyfle i'r diwydiant twristiaeth i wella'r wybodaeth am fwyd sydd ar gael i ymwelwyr. • Roedd niferoedd calonogol o fusnesau twristiaeth a lletygarwch a chynhyrchwyr bwyd a diod o Gymru'n bresennol ym mhob un o'r digwyddiadau a byddwn yn gwerthuso'r gwerthiant / cysylltiadau newydd sydd wedi deillio o'r digwyddiadau. 	Parhaus

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

<p>Annog lefelau uwch o elw, cynhyrchiant, cystadleurwydd, arloesedd ac entrepreneuriaeth yn y diwydiant.</p>	<p>Datblygu cymorth, pecynnau cymorth, dyfarniadau, digwyddiadau a chyngor wedi'i deilwra ar-lein ac all-lein i'r diwydiant er mwyn; arddangos arferion gorau; darparu gwybodaeth meincnodi perfformiad; hyrwyddo arloesedd.</p> <p>Cyflwyno gwasanaeth mentora yn y diwydiant gan ddefnyddio enghreifftiau "gorau o'u math"</p> <p>Darparu cyngor busnes wedi'i deilwra i gefnogi lefelau uwch o elw a chystadleurwydd.</p> <p>Ystyried pa mor ymarferol fyddai cyflwyno Cronfa ar gyfer Arloesi mewn Twristiaeth i ddarparu cymorth hyblyg, am amser cyfyngedig ar gyfer arloesi mewn busnes.</p> <p>Hyrwyddo clystyrau busnes i annog cydweithio a manteision i fusnesau.</p>	<p>Mae nifer o ddigwyddiadau wedi'u trefnu i ganolbwyntio ar y maes gwaith hwn. Mae pecyn hunan-ddatrys TGCh ar-lein wedi'i ddatblygu a gellir ei gael trwy fynd i wefan Busnes Cymru.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd y Gwobrau Twristiaeth yn gyfle i arddangos arferion gorau yn y diwydiant ac arweiniodd enillwyr y gwobrau sesiynau yn nifer o sioeau teithiol twristiaeth rhanbarthol Llywodraeth Cymru i rannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd. • Mae cynllun sgiliau'n cael ei ddatblygu a fydd yn cael ei weithredu'n ystod oes y strategaeth dwristiaeth. • Mae busnesau'n cael eu cyfeirio at wefan Busnes Cymru. Mae'r gwaith hwn yn parhau. 	<p>1 – 2</p> <p>2</p> <p>2 – 3</p> <p>Parhaus</p>
---------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

<p>Annog busnesau i gymryd rhan mewn cynlluniau/ gweithgareddau sy'n sicrhau mwy o fanteision i'r amgylchedd a busnesau.</p>	<p>Darparu cyngor busnes i annog trefniadau rheoli gwastraff/d ^ ŵr gwell, effeithlonrwydd ynni a defnyddio ynni'n gynaliadwy.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae strwythurau'r holl bartneriaethau'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd i gryfhau cynrychiolaeth y sector preifat ac i newid pwyslais ymdrechion yn unol â'r blaenoriaethau strategol ar gyfer twristiaeth. • Mae'r Cynllun Gweithredu Twristiaeth Fwyd yn cynnwys dolen at gyngor gan yr Elusen Wastraff – "Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau" (WRAP). • Mae'r Pecyn Cymorth Twristiaeth Gynaliadwy ar wefan Rheoli Cyrchfannau Cymru wedi cael ei ddylunio i gynorthwyo busnesau i wella eu cynaliadwyedd. Bydd hefyd yn helpu llawer i fod yn fusnesau carbon isel ac i wella'r cynnyrch twristiaeth ar yr un pryd. 	<p>Parhaus</p>
		<ul style="list-style-type: none"> • Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio â WRAP Cymru i gyflwyno amrywiaeth o becynnau ar gyfer y diwydiant twristiaeth i helpu i leihau costau ac i'w helpu i reoli eu gwastraff mewn ffordd fwy cynaliadwy. • Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i gydweithio ag Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy i ddatblygu a darparu cyngor a chymorth a fydd yn eu gwneud yn fwy cynaliadwy. 	<p>Parhaus</p>

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

<p>Amlygu'r cyfleoedd am fewnfuddsoddi yng Nghymru.</p>	<p>Cynnwys y sector twristiaeth yng nghynnig marchnata mewnfuddsoddi Llywodraeth Cymru.</p> <p>Darparu ymchwil a gwybodaeth i ddatblygwyr posibl a chyllid priodol i ysgogi buddsoddiad.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Y llynedd cafodd y sector twristiaeth ei gynnwys mewn ymgyrch Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor am y tro cyntaf er mwyn gwella'r profiad / y ddarpariaeth i dwristiaid. • Bydd y sector twristiaeth yn parhau i gael ei gynnwys yn yr ymgyrch fusnes "Just Ask Wales" ehangach a bydd yn targedu cynadleddau penodol sy'n gysylltiedig â'r diwydiant a'r cyfryngau fel rhan o ddull sy'n eu targedu. 	<p>Parhaus</p>
<p>Codi proffil yr economi ymwelwyr a'r holl bartïon amrywiol sy'n cyfrannu ar lefel gymunedol, ranbarthol a chenedlaethol.</p>	<p>Darparu negeseuon cyson ar swyddogaeth Twristiaeth yn yr economi.</p> <p>Sicrhau dull cydlynol o sicrhau cysondeb rhwng mentrau.</p> <p>Hwyluso'r cyfle i rwydweithio'n lleol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae twristiaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol at economi Cymru, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol yn sgil y swyddi a'r gwariant a gynhyrchir. Roedd ystadegau Sectorau â Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru (2012) yn nodi bod cyfraniad Twristiaeth yn £2.354 biliwn, sy'n cyfateb i 5.4% o Werth Ychwanegol Gros i Economi Cymru. • Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi datblygiad partneriaethau cyrchfannau a chyflwyno cynlluniau Rheoli Cyrchfannau ledled Cymru. • Ers i'r gefnogaeth i'r pedair Partneriaeth Twristiaeth Ranbarthol ddod i ben, mae gan y tîm ymgysylltu lleol sydd wedi'i sefydlu yn Llywodraeth Cymru ran allweddol i'w chwarae i gefnogi partneriaethau cyrchfannau ac i ddarparu cyllid ar gyfer cynlluniau rheoli cyrchfannau. 	<p>Parhaus</p>

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

		<ul style="list-style-type: none">• Yn 2014 cafodd pedwar Fforwm Rhanbarthol eu ffurfio er mwyn gallu cyfathrebu'n uniongyrchol â'r diwydiant yng Nghymru i helpu i gynnal y strategaeth dwristiaeth ar lefel ranbarthol. Cafodd cyllid pwrpasol i gyfrannu at weithgareddau rhanbarthol ei lansio ym mis Hydref 2014, a dyfarnwyd £426,000 i 25 o brosiectau.	
--	--	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

<p>Gwella ansawdd a dibynadwyedd gwybodaeth ymchwil i'r farchnad sy'n mesur tueddiadau, agweddau ac ymddygiad defnyddwyr.</p>	<p>Cyflwyno rhaglen ymchwil gyfunol sy'n darparu gwybodaeth a chyfathrebu rheolaidd ac amserol am: feincnodi perfformiad twristiaeth; tueddiadau'r farchnad a'r ffactorau sy'n sbarduno galw; ffactorau ynghylch y cyflenwad sy'n sbarduno'r galw; boddhad ymwelwyr</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r prosiectau ymchwil canlynol wedi cael eu cyflawni'n llwyddiannus yn ystod y flwyddyn ddiwethaf: <ul style="list-style-type: none"> ○ Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr ○ Arolwg Ymweliadau Dydd Prydain Fawr ○ Arolwg Teithwyr Rhyngwladol ○ Arolwg Meddiannaeth y DU ○ Arolwg Meddiannaeth Llety ○ Arolwg o Atyniadau i Ymwelwyr ○ Arolwg o Fusnesau Twristiaeth ○ Monitor Twristiaeth Golff ○ Prosiect Olrhain /Gwerthuso Brandiau ○ Arolygon Stoc Gwelyau Llety • Cafodd adolygiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac adroddiad o ymchwil a Chipolygon ei gymeradwyo gan y Bwrdd Cyngori Twristiaeth ym mis Ionawr 2015. • Roedd yr adroddiad yn pwysleisio gwerth y rhaglen ymchwil gyfredol, ac mae o'r farn bod y swyddogaeth Ymchwil a Chipolygon yn rôl ganolog, strategol, sy'n goleuo gweithgarwch Marchnata a Datblygu Twristiaeth. • Cydnabu'r adroddiad fod dau draean o'r rhaglen ymchwil gyfredol yn 'statudol' ei natur (gan gynnwys canlyniadau misol Ystadegau Swyddogol ac adrodd i Eurostat). 	<p>Parhaus</p>
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-----------------------

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

		<ul style="list-style-type: none"> • Roedd yr adroddiad yn argymhell hefyd bod rhaglen o ymchwil sy'n ymdrin â'r diwydiant yn cael ei datblygu; cyfres o adroddiadau dehongli yn seiliedig ar y prif arolygon; a phartneriaeth â'r diwydiant a phartneriaid academaidd ar waith cipolwg. 	
<p>Gwella enw da Cymru fel cyrchfan sy'n darparu amrywiaeth o brofiadau unigryw – yn cynnwys treftadaeth, cerddoriaeth, y celfyddydau, bwyd, diwylliant cyfoes, hynafiaid a digwyddiadau.</p>	<p>Darparu'r rhaglen o weithgareddau a amlinellwyd yn y cynllun gweithredu.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae cynnwys newydd ar Dwristiaeth Ffydd yn awr ar gael ar wefan Croeso Cymru gyda diweddariadau wedi'u cynllunio ar gyfer 2015: http://www.visitwales.com/explore/faith-tourism (Saesneg yn unig). • Gweithio i ddatblygu deunyddiau hyfforddi, astudiaethau achos ac arweiniad i annog mwy o gapeli i agor eu drysau i ymwelwyr; a hefyd gwelliannau cyllido ar gyfer gwefan y Ffordd Sistersaidd. • Mae'r prif brosiectau a ariannwyd eleni'n cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ Y Ffordd Sistersaidd: ail ddylunio'r wefan a gwaith peilot i ddatblygu'r llwybr yn Ne Ddwyrain Cymru (arolygon o'r llwybr, mapio a thafleuni y gellir eu llwytho i lawr) ○ Pecyn cymorth twristiaeth capeli: astudiaethau achos; pecyn cymorth; a 4 gweithdy i gael eu cynnal i dreialu'r pecyn cymorth gyda chynulleidfaoedd mewn capeli nad ydynt yn agored i'r cyhoedd. ○ Cyfarfu'r pedwar prif gorff treftadaeth ym mis Ionawr 2014 (Cadw, 	<p>2 – 3</p>

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

		<p>Amgueddfa Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol) i edrych ar gyfleoedd i gydweithio ar dwristiaeth dreftadaeth.</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Cytunwyd ar gyfraniad o £20,000 i hybu datblygiad cynnyrch sy'n cael ei ariannu â refeniw i hyrwyddo prif atyniadau treftadaeth Cymru ymhlith ymwelwyr yn ystod Haf 2015. ○ Mae rheolwyr marchnata'r pedwar sefydliad wedi cwrdd ac wedi cytuno i gydweithio ar ymgyrch hyrwyddo ar y cyd ar gyfer haf 2015. Cytunodd y grŵp hefyd i gydweithio'n fwy clos i gydlynu digwyddiadau ar gyfer y blynnyddoedd profiad. ○ Yn ychwanegol ar y portffolio cryf o ddigwyddiadau chwaraeon rhyngwladol a sicrhawyd i Gymru, mae'r Uned Digwyddiadau Mawr wedi cefnogi amrywiaeth eang o ddigwyddiadau celfyddydol a diwylliannol, fel yr Artes Mundi; Gwobr Iris; Gŵyl y Gelli; Gŵyl Gomeddi Machynlleth; a Gŵyl Rhif 6. 	
<p>Gwireddu potensial twristiaeth arfordir Cymru i'r eithaf.</p>	<p>Darparu'r rhaglen o weithgareddau a amlinellwyd yn y Cynllun Gweithredu Twristiaeth Arfordirol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Fel rhan o brosiectau Amgylchedd ar gyfer Twf yr UE, mae Llywodraeth Cymru wedi manteisio i hyrwyddo'r arfordir yng Nghymru drwy gyfrwng ymgyrch farchnata a oedd yn cynnwys Llwybr Arfordir Cymru a buddsoddiad diweddar mewn cynnyrch. • Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio yn fewnol ac â rhanddeiliaid allanol i helpu i ffurfio polisi, blaenoriaethau, datblygiadau a 	<p>2 – 3</p>

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

		<p>buddsoddiad ar gyfer yr arfordir, gan gynnwys cynllunio morol, rheolaeth arfordirol a Chronfa Cymunedau'r Arfordir Llywodraeth y DU – sy'n cynnig cymorth buddsoddi ar gyfer yr arfordir gyda thwristiaeth yn elfen allweddol ar gyfer cyllido.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu nifer o weithgareddau ar y cyd gan weithio â Cyfoeth Naturiol Cymru ar raglen er mwyn gwella ansawdd dyfroedd yr arfordir a rheolaeth amgylch yr arfordir. • Yn dilyn ffurfio'r pedwar Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o strwythurau'r partneriaethau allanol presennol gyda golwg ar symleiddio a blaenoriaethu'r adnoddau ac alinio'r gweithgareddau rhanbarthol yn fwy agos â'r strategaeth dwristiaeth. • Fel rhan o'r adolygiad hwn, bydd nifer o gyrff / partneriaethau'n cael eu hymgorffori yn y Fforymau. • Bydd partneriaeth Cruise Cymru'n parhau i fod yn grŵp unigol sy'n cyfrannu at y Fforymau a'r Bwrdd Cyngori Twristiaeth yn ogystal â'r Cyd-grŵp Treftadaeth sydd newydd uno ac a fydd yn disodli'r partneriaethau Diwylliannol a Ffydd. • Bydd blaenoriaethau pob grŵp arall yn cael sylw drwy'r strwythur ymgysylltu twristiaeth rhanbarthol. 	
--	--	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

MEITHRIN LLE			
Blaenoriaethau Strategol			
<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu cyrchfannau y bydd pobl am ymweld â nhw ac am eu hargymell • Creu cyfleoedd i gymunedau lleol roi profiadau cofiadwy i ymwelwyr • Gwella cysylltiadau trafnidiaeth yn yr awyr, ar y môr, ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd 			
Beth sydd angen i ni ei wneud i ddatblygu'r strategaeth	Sut ydym yn ei wneud? / Camau yn yr Arfaeth	Cyflawniadau / Cynnydd Hyd Yma	Amseriad (blynyddoedd)
<p>Cefnogi datblygiad llefydd, cyrchfannau ac amgylcheddau unigryw sy'n ystyrlon i ymwelwyr ac yn ddeniadol, yn ddiddorol ac yn hwyl.</p>	<p>Datblygu a gweithredu dull rheoli cyrchfannau a chynhyrchion ledled Cymru gan ddysgu o enghreifftiau o arferion gorau yn y DU a Thramor.</p> <p>Annog pob cyrchfan yng Nghymru i gael partneriaethau cyrchfan effeithio ar waith.</p> <p>Pob cyrchfan i gael cynllun rheoli erbyn mis Mawrth 2014</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan bob un o'r 26 cyrchfan allweddol Gynlluniau Rheoli Cyrchfan ac yn gweithio i'w rhoi ar waith. • Fel rhan o'r datblygiad hwn, mae Twristiaeth a Marchnata wedi rhoi cyflwyniadau allweddol i'r partneriaethau Rheoli Cyrchfannau i helpu i ffurfio ac i oleuo'r broses o ddatblygu a gweithredu eu cynllun gweithredu.. • Mae gwefan Rheoli Cyrchfannau Cymru newydd a diwygiedig (www.dmwales.com) wedi cael ei lansio. Mae'n cynnwys cyngor a gwybodaeth fwy manwl i bartneriaid i gwblhau eu cynlluniau cyrchfan. Mae offer mapio i ddatblygu cynnyrch hefyd wedi'i ddatblygu i helpu partneriaid. • Mae Twristiaeth a Marchnata yn parhau i gefnogi datblygiad Partneriaethau Cyrchfan ac i gyflawni cynlluniau Rheoli Cyrchfan. Bydd y Fforymau Rhanbarthol yn goruchwylio cyflawni strategaethau twristiaeth ar y lefel ranbarthol ac yn helpu i gydlynu partneriaethau cyrchfan ar lefel ranbarthol. • Bydd Cronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol newydd Llywodraeth Cymru yn helpu partneriaethau i gwblhau eu cynlluniau ac i annog cydweithredu ranbarthol. 	<p>Parhaus</p>

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

	<p>Cefnogaeth i ddarparu gwybodaeth o ansawdd i dwristiaid, a hyrwyddo'r defnydd o atebion digidol i fusnesau lle maent yn ychwanegu gwerth.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gwefan newydd Croeso Cymru yn annog rhannu cynnwys drwy dulliau digidol i gynhyrchu'r wybodaeth o ansawdd da sydd ei hangen i ysbrydoli cwsmeriaid i ymweld â Chymru. • Mae'r rhaglen Busnes Twristiaeth Ddigidol wedi datblygu gwefan "Sharewales" i hysbysu'r sector am dueddiadau ac arferion gorau. http://www.sharewales.com (Saesneg yn unig.). 	Parhaus
	<p>Cynnal arolygon ymwelwyr rheolaidd i fesur boddhad ymwelwyr, cryfderau a gwendidau cynnyrch a gwerth am arian.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Arolwg Ymwelwyr Cymru yn cael ei gynnal bob dwy neu dair blynedd. Roedd arolwg 2013 yn ymestyn i'r cyfnod tawel rhwng misoedd Hydref 2013 a Mawrth 2014, er mwyn cymharu lefelau bodlonrwydd ymwelwyr â'r tymor brig. • Yn dilyn argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymchwil, bydd yr arolwg nesaf o'r fath yn cael ei gynnal yn 2016. 	Parhaus
	<p>Edrych ar gyfleoedd i ddefnyddio model y fenter gymdeithasol i gefnogi gwaith partneriaeth ar lefel cyrchfannau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Grŵp Rhwydwaith Gwybodaeth i Ymwelwyr (TING) wedi cael ei sefydlu'n awr fel Cwmni Menter Gymdeithasol wedi'i Gyfyngu drwy Warrant. • Mae'r grŵp wedi cynhyrchu cynllun busnes ac mae'n cwrdd bob chwarter i drafod gwybodaeth am dwristiaeth. 	2
<p>Annog mwy o fusnesau a chyrchfannau i greu naws unigryw o le i ymwelwyr sy'n defnyddio'r gorau o'n diwylliant, ein treftadaeth a'n hiaith.</p>	<p>Darparu cyngor busnes ac astudiaethau achos i gefnogi lefelau uwch o Naws am Le a ffyrdd o ddod â'r lle yn fyw.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae cyngor ac arweiniad ar gael yn awr yn yr adran "Naws am Le" ar wefan Rheoli Cyrchfannau Cymru: http://business.wales.gov.uk/dmwales/cy/sense-place • Mae'n cynnig: <ul style="list-style-type: none"> ○ Defnydd o erthyglau heb hawlfraint sy'n ymwneud â Naws am Le pob rhanbarth y gall busnesau eu defnyddio yn eu deunydd marchnata eu hunain neu ar borwyr eu hystafelloedd gwely; ○ Rhaglen hyfforddi "Naws am Le" am ddim ar-lein; a ○ Chyfeiriadau at hyfforddiant cysylltiedig arall gan gynnwys cyrsiau hyfforddi Llysgenhadon. 	Parhaus

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

<p>Gwella profiad ymwelwyr sy'n teithio mewn ceir/ar goetsys/beiciau modur yng Nghymru.</p>	<p>Ymchwilio i atebion digidol newydd i wella ansawdd gwybodaeth i dwristiaid ac i wella gwaith rheoli, yn enwedig yn y cyfnodau prysuraf.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae elfen grant y rhaglen Busnes Twristiaeth Ddigidol wedi cynorthwyo i ddatblygu dros 40 "cynnyrch" digidol newydd sydd â'r nod o wella profiad yr ymwelydd. Error! Hyperlink reference not valid. 	2
	<p>Gwella'r seilwaith coetsys mewn cyrchfannau allweddol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio ag awdurdodau lleol a phartneriaid strategol eraill i ganfod ardaloedd lle mae angen gwella'r seilwaith ar gyfer coetsys. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynorthwyo Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gyda swm o £72,000 i ddatblygu cyfleusterau parcio ar gyfer coetsys ger Traphont Pontcysyllte. Aqueduct. 	Parhaus
<p>Cynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus i Gymru ac o fewn Cymru.</p>	<p>Gweithio gyda gweithredwyr trafndiaeth, cyrchfannau, atyniadau a darparwyr llety i:</p> <ul style="list-style-type: none"> wella amrywiaeth a pherthnasedd y wybodaeth ar drafnidiaeth gyhoeddus; hyrwyddo trafndiaeth gyhoeddus fel bod mwy yn ei defnyddio; datblygu a hyrwyddo gwybodaeth amserlen 'amser real', tocynnau cyfunol a thocynnau teithio dyddiol/wythnosol. 	<ul style="list-style-type: none"> Trwy gyfrwng Gweithgor Trafnidiaeth a Thwristiaeth Gynaliadwy Llywodraeth Cymru cynhaliwyd adolygiad o strwythurau partneriaethau allanol cyfredol gyda golwg ar symleiddio a blaenoriaethu'r adnoddau ac alinio'r gweithgareddau rhanbarthol yn fwy agos â'r strategaeth. Bydd trafndiaeth yn faes allweddol i'r timau a'r fforymau rhanbarthol i'w adolygu a'i ddatblygu. Ar lefel Genedlaethol, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio drwy ei Hadran Drafnidiaeth â rhanddeiliaid allweddol fel –Trenau Arriva Cymru; First Great Western; a Scenic Wales/grwpiau trafndiaeth cymunedol ar brosiectau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae prosiectau a ariannwyd yn ddiweddar yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> datblygu teithiau di-draffig pwrpasol ar Reilffordd Calon Cymru a Rheilffordd y Cambrian; ymgysylltu â busnesau a chwmnïau trafndiaeth yn y Canolbarth a Bannau Brycheiniog; trafnidiaeth gyhoeddus i gysylltu digwyddiadau blynyddol fel Gŵyl y Gelli, a digwyddiadau diwylliannol Talacharn ac Abertawe; bywyd gwylt a theithiau trên; a chysylltedd gwell gwefannau a'r wasg ranbarthol a chysylltiadau cyhoeddus. 	Parhaus

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

<p>Gwella enw da ac amlygu a hyrwyddo Cymru fel cyrchfan dwristiaeth gynaliadwy.</p>	<p>Darparu'r rhaglen o weithgareddau a ddisgrifir yn y cynllun gweithredu.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Trwy'r Fforwm Twristiaeth Gynaliadwy gwnaethpwyd cynnydd sylweddol o ran cydweithredu a datblygiad prosiectau rhwng rhanddeiliaid a'r sector preifat. • Yn unol â'r adolygiad o'r partneriaethau sefydledig, bydd datblygiad twristiaeth gynaliadwy yn cael ei oruchwylio gan y pedwar Fforwm Rhanbarthol a fydd yn gweithio'n uniongyrchol â'r partneriaethau cyrchfannau lleol. • Yn 2014/15 cafodd nifer o brosiectau cynaliadwy eu cymeradwyo trwy'r Bartneriaeth ar gyfer Twf a'r Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol i wella ymhellach yr agenda twristiaeth gynaliadwy gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ Concordat Arforgampau sy'n gweithio â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ○ App Twristiaeth Arfordirol Cadwch Gymru'n Daclus ○ Datblygiad Twristiaeth Biosffer Dyfi ○ Datblygiad Clawdd Offa ○ Tirweddau Gwarchoddedig Gogledd Cymru ○ Safle Treftadaeth y Byd Pontcysyllte ○ Twristiaeth Gynaliadwy Bannau Brycheiniog - Rhaedrau ○ Sustrans – Straeon Celtaidd – Trafnidiaeth Gynaliadwy ○ Gwaith Hyrwyddo Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gogledd Cymru 	<p style="text-align: center;">2 – 3</p>
--------------------------------------------------------------------------------------	--------------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------

Cynllun Gweithredu Fframwaith - Blwyddyn 2

<p>Parhau i ddatblygu potensial rhanbarth dinas Caerdydd i ymwelwyr.</p>	<p>Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu a hyrwyddo'r hyn sydd gan Gaerdydd i'w gynnig.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Comisiynodd Llywodraeth Cymru astudiaeth ddichonoldeb i Dwristiaeth Ddiwylliannol Caerdydd i edrych sut y gellid ei gyflwyno'n well a'i hyrwyddo i ddenu mwy o ymwelwyr i'r ddinas. • Mae argymhellion yr adroddiad wedi'u cymeradwyo ac mae'r gweithgareddau canlynol ar waith: <ul style="list-style-type: none"> ○ Astudiaeth gwmpasu llwybr Roald Dahl. ○ Hyfforddiant Digidol i sefydliadau diwylliannol. ○ Datblygu teithiau diwylliannol. ○ Rhaglen hyfforddi ar gyfer congierge. • Mae grŵp llywio bychan wedi cael ei sefydlu i baratoi'r astudiaeth. Bydd y grŵp yn cael ei hwyluso gan Gyngor Dinas Caerdydd. 	<p>Parhaus</p>
<p>Cefnogi'r gwaith o ehangu'r rhwydwaith llwybrau i mewn i Gymru, niferoedd teithwyr ac apêl Maes Awyr Caerdydd, a gwneud y gorau o botensial porthladdoedd a meysydd awyr cyfagos yn Lloegr.</p>	<p>Cefnogi'r strategaeth i ddenu mwy o gwmnïau awyr i hedfan i Gaerdydd a denu mwy o deithwyr i wireddu effaith economaidd llawn y maes awyr.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Daeth ymgyrch hyrwyddo i ben ddiwedd Ebrill. • Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal cyfres o ymgyrchoedd tactegol mewn marchnadoedd rhyngwladol ehangach gan gynnwys gweithgarwch i fanteisio ar ddatblygiad llwybrau newydd ym Maes Awyr Cymru Caerdydd. 	<p>1 – 3</p>

CRYNODEB O'R PERFFORMIAD CYFFREDINOL 2014

Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr 2014 – Canlyniadau diwedd blwyddyn

Y canlyniadau diwedd blwyddyn ar gyfer Cymru a gyhoeddwyd yn Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr 2014 (yr arolwg Ystadegau Swyddogol sy'n cynnwys ymweliadau dros nos gan breswylwyr Prydain Fawr i bob cyrchfan ym Mhrydain) oedd y gorau ers cychwyn yr arolwg ar ei ffurf bresennol. Digwyddodd hyn ar adeg pan fu gostyngiad ar gyfer Prydain yn ei chyfanrwydd.

- Yn 2014 cyrhaeddodd cyfanswm nifer y tripiâu i Gymru'r nifer uchaf erioed o 10 miliwn (cynnydd o 0.7% o'i gymharu â 2013, a oedd ei hun yn flwyddyn ragorol) gyda'r gwariant cysylltiedig yn £1.735 biliwn (cynnydd o 2.3%).
- Mae ffigurau Cymru'n fwy arwyddocaol fyth o gofio bod cyfanswm nifer y tripiâu domestig ym Mhrydain wedi gostwng 7% yn 2014 a bod gwariant cysylltiedig 2.6% yn is.
- Roedd gwyliau / tripiâu hamdden yn cyfrif am 64% o'r holl dripiâu dros nos i Gymru yn ystod 2014. Gwelwyd cynnydd o 4.4 % yn y tripiâu gwyliau ac roedd cynnydd o 7.7% yn y gwariant ar y tripiâu gwyliau hyn o'i gymharu â 2013. Bu cynnydd i 12% yng nghyfran Cymru o'r tripiâu gwyliau domestig ym Mhrydain yn 2014 o'i gymharu â 10.7% yn 2013 a 10.3% yn 2012.

Arolwg Twristiaeth Ryngwladol 2014 – Canlyniadau diwedd blwyddyn

Roedd y canlyniadau diwedd blwyddyn a gyhoeddwyd yn Arolwg Teithwyr Rhyngwladol yn dangos cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a hefyd yn y gwariant cysylltiedig.

- Yn 2014 croesawodd Cymru 933,000 o ymweliadau a dramor, cynnydd o 7.3% o'i gymharu â 2013.
- Mae hyn yn cyfrif am 2.7% o'r holl ymweliadau o dramor â'r DU.
- Cynhyrchodd yr ymweliadau â Chymru £368m yn 2014, cynnydd o 4.5% o'i gymharu â 2013.
- O'r 933,000 o ymweliadau o dramor â Chymru, daeth tua 70.5% o Ewrop – gyda'r mwyafrif helaeth o'r UE. Daeth tua 12.6% o'r ymweliadau â Chymru o Ogledd America a 16.7% o Weddill y Byd.

Llywodraeth Cymru 2014 – Gwariant Ychwanegol a Swyddi a Gynhyrchwyd gan Weithgareddau Twristiaeth a Marchnata

Mae'r gwariant ychwanegol y gellir ei briodoli i'r ystod lawn o weithgarwch Twristiaeth a Marchnata yn cael ei gyfrifo'n flynyddol ac mae'r ffigur hwn wedyn yn cael ei gysylltu â'r swyddi sy'n cael eu creu, eu diogelu a'u cynorthwyo. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys marchnata defnyddwyr, cymorth i ddigwyddiadau, y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS), y fasnach deithio a mordeithiau. Mae gweithgarwch marchnata defnyddwyr yn cynhyrchu tua thri chwarter yr holl wariant ychwanegol y gellir ei briodoli i'n gweithgareddau.

Roedd cyfanswm y gwariant ychwanegol y gellid ei briodoli i bob math o weithgarwch Twristiaeth a Marchnata yn 2014 tua **£314.11 miliwn**. Mae hyn tua 25% yn uwch na'r targed o £251.34 miliwn. Mae'r elfennau canlynol yn ffurfio'r cyfanswm:

- **£238.39m** yn deillio o ymgyrchoedd a gweithgarwch marchnata defnyddwyr
- **£2.60m** yn deillio o weithgarwch sy'n gysylltiedig â Mordeithiau (i'w gadarnhau pan fydd y ffigurau terfynol ar gael)
- **£4.50m** yn deillio o weithgarwch y Fasnach Deithio
- **£13.97m** yn deillio o TISS
- **£54.65m** yn deillio o Gymorth i Ddigwyddiadau

Roedd cyfanswm y swyddi a grëwyd yn uniongyrchol yn sgil y gweithgareddau hyn yn **248**, roedd y nifer a ddiogelwyd yn **84** a chynhaliwyd **6,868**. O'r swyddi a gynhaliwyd, gellir priodoli **5,455** i weithgarwch marchnata defnyddwyr ac ymgyrchoedd.